Cyfiawnder dyled - taflen wybodaeth

Pethau allweddol i'w gwybod am gyfiawnder dyled

1 Mae llawer o wledydd yn wynebu argyfwng dyled

Fel y dywed ein cyfeillion yn Debt Justice (Ymgyrch Ddyled y Jiwbilî gynt): **'Ystyr argyfwng dyled yw unrhyw sefyllfa lle mae dyled yn peri bod hawliau dynol yn cael eu hesgeuluso'**. Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd, mewn mwy na 50 o wledydd incwm isel.

2 Llywodraethau yn gwario mwy ar ddyled nag ar wasanaethau hanfodol

Mae llywodraethau'n gwario llawer mwy ar ddyled allanol nag ar anghenion gwirioneddol hanfodol eu dinasyddion.

Mae dros 60% o wledydd Affrica yn gwario mwy ar dalu dyledion allanol nag ar iechyd ac addysg. A phwy sy'n elwa? Benthycwyr preifat yn bennaf, sy'n gwneud elw enfawr.

3 Mae'r dyledion hyn yn dal pobl mewn tlodi

Mae'r dyledion hyn yn atal llywodraethau rhag mynd i'r afael ag anghenion sylfaenol eu pobl neu ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

- **Ym Malawi,** mae'r llywodraeth yn gwario mwy na thair gwaith y swm ar dalu dyledion nag ar wasanaethau iechyd.
- **Yn Ethiopia,** mae talu dyledion yn golygu nad yw'r llywodraeth yn gallu talu cyflogau i feddygon ac athrawon, ac felly mae rhaid i ysbytai ac ysgolion gau.
- **Ac yn Kenya**, mae talu dyledion yn golygu bod gwasanaethau cymdeithasol diogelu plant wedi cael eu torri.

4 Mae angen dod â benthycwyr at y bwrdd

Mae angen i ddyledion gael eu dileu ar raddfa fawr. Ond mae banciau mawr a chwmnïau rheoli asedau wedi bod yn gwrthod cymryd rhan mewn trafodaethau. Mae angen tywys y benthycwyr hyn at y bwrdd.

Mae llawer o'r benthyciadau mae gwledydd incwm isel yn eu cymryd yn cael eu llywodraethu gan gyfraith Lloegr. **Mae'r gallu i newid y gyfraith hon yn nwylo Llywodraeth y DU.**

#TacloTlodi

Dileu'r ddyled

Beth i alw amdano

Mae Cymorth Cristnogol yn galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno deddfwriaeth sy'n cefnogi rhyddhad o ddyled mewn gwledydd incwm is. **Gallai hyn dynnu miliynau o bobl allan o dlodi**.

Ynghyd â hyn, mae Cymorth Cristnogol yn galw ar y DU i helpu i lunio cytundeb byd-eang newydd i wneud rhoi, benthyg a benthyca yn fwy cyfrifol a chynaliadwy.



Fel aelod o'r llywodraeth neu o'r wrthblaid, mae gan eich Aelod Seneddol ran i'w chwarae. Cysylltwch â'ch Aelod Seneddol heddiw.

Am ragor o wybodaeth:
Darllenwch faniffesto Cymorth Cristnogol yn llawn – caid.org.uk/manifesto

E-bost:
campaigns@christian-aid.org

'Mae angen arian ar frys ar ein llywodraeth fel y gall ddelio â'r argyfwng hinsawdd ac amddiffyn dinasyddion rhag caledi economaidd. Ond yn lle hynny, rydyn ni'n gaeth i wario biliynau mewn ad-daliadau dyled.

Mae cwmnïau benthyg, fel BlackRock, wedi cael rhyddid i oedi, atal a gwrthod cymryd rhan (mewn mentrau rhyddhad o ddyled), gan roi blaenoriaeth i'w chwant eu hunain am elw dros newyn pobl Zambia - ond mae gennych chi'r pŵer i newid pethau.'

Precious Kalombwana, ymgyrchydd dyledion, Zambia

cymorth cristnogol

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o'r ACT Alliance. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif cwmni 5171525. Nodau masnach Cymorth Cristnogol yw enw a logo Cymorth Cristnogol. Argraffwyd ar ddeunyddiau o goedwigoedd a reolir yn gyfrifol yn unig. © Cymorth Cristnogol Gorffennaf 2024 Llun: Cymorth Cristnogol/ Debt Justice